



Cylchlythyr – Ebrill 2021

Croeso i newyddlen Morlais sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i chi am y prosiect.

Cynllun ynni llanw Menter Môn yw Morlais gyda'r nod o sicrhau budd i gymunedau lleol, yr economi a'r amgylchedd.

Os yr hoffech wybod mwy am Morlais cysylltwch â ni ar info@morlaisenergy.com.

Carreg filltir arwyddocaol i Morlais wrth i gyllid gael ei gadarnhau

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cadarnhau cyllid o £31 miliwn ar gyfer Morlais drwy Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol mai hwn fydd y grant mawr olaf o raglen ariannu ranbarthol yr UE.

Cadarnhaodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, yr arian wrth siarad yng Nghynhadledd Ynni Morol Cymru yn Llandudno ym mis Mawrth. Wrth wneud y cyhoeddiad, cadarnhaodd y Gweinidog fod y Llywodraeth am sefydlu Cymru yn ganolbwynt i ddatblygwyr technoleg llif llanw ac roedd yn cydnabod y rôl y gall Morlais ei chwarae wrth gyflawni hyn.

Daeth y cyhoeddiad hwn ar gefn y caniatâd a roddwyd i Morlais gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwedd 2021. Mae hefyd yn golygu y gall y gwaith ddechrau i ddatblygu'r prosiect a gwireddu Morlais, mwy [yma](#).

Penodi cwmni o'r gogledd yn brif gontractwr gwaith ar y tir

Mae Jones Bros Civil Engineering wedi sicrhau'r prif gontract gwerth £23.5 miliwn i adeiladu seilwaith ar y tir ar gyfer Morlais.

Gyda'i bencadlys yn Rhuthun, y busnes hwn o'r gogledd fydd yn gyfrifol am adeiladu'r is-orsaf ar Ynys Cybi, yn ogystal â gosod y ceblau fydd yn cysylltu'r cynllun â'r Grid Cenedlaethol.

Jones Bros yw un o brif gontractwyr peirianneg sifil y DU. Sefydlwyd y cwmni yn y 1950au, mae'n berchen ar un o'r fflydoedd peiriannau mwyaf yn y DU ac mae'n cyflogi tua 500 o bobl. Mae'r cwmni'n rhedeg cynllun prentisiaeth sydd wedi cynhyrchu bron i 50 y cant o'i weithlu presennol.

Penodwyd Stockton Drilling i ymgymryd â drilio cyfeiriadol arbenigol ar y prosiect a bydd yn gweithio ochr yn ochr â Jones Bros yn y cyfnod cynnar hwn.

Y diweddaraf am y gwaith adeiladu

Gyda chontractau wedi'u dyfarnu, mae gwaith ar y safle bellach ar y gweill. Ar ôl gweithgareddau archwilio cychwynnol, bydd y gwaith nawr yn canolbwyntio ar Holyhead

Hotspur a Chanolfan Hamdden Caergybi. Mae Jones Bros wedi sefydlu compownd ar y safle ac wedi dechrau ar y gwaith torri ffosydd. Mae Stockton wedi cwblhau eu dril prawf ac ni fyddant yn gweithio yn Ynys Lawd nawr tan fis Awst oherwydd y tymor nythu. Mae gwaith wedi'i gynllunio drwyddi draw i ystyried bywyd gwyllt lleol yn ogystal â'r prif dymor twristiaeth.

Wrth adeiladu'r prosiect, mae'n anochel y bydd rhywfaint o darfu ar draffig lleol. Byddwn bob amser yn ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu a byddwn yn cytuno ar waith ymlaen llaw gyda Chyngor Sir Ynys Môn. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am adeiladu a rheoli traffig, ewch i wefan Morlais www.morlaisenergy.com.

Swyddog Cyswllt Lleol Jones Bros

Fel rhan o'u gwaith gyda Morlais, mae Jones Bros wedi penodi Bryn Williams fel swyddog cyswllt lleol y prosiect. Bryn fydd y pwynt cyswllt cymunedol ar gyfer unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y cam hwn o'r gwaith adeiladu. Mae wedi gweithio gyda Jones Bros ers blynnyddoedd lawer, yn fwyaf diweddar bu'n gweithio ar ffordd osgoi newydd Caernarfon. I gysylltu â Bryn, anfonwch e-bost at bryn@jones-bros.com.

Ynni Morol Cymru

Yn ddiweddar, mynychodd tîm Morlais [gynhadledd](#) Ynni Morol Cymru (MEW) yn Llandundo. Hwn oedd y digwyddiad wyneb-yn-wyneb cyntaf i MEW ei gynnal ers cyn y pandemig a chafodd ei alw'n ddigwyddiad ynni morol mwyaf yn y DU ar gyfer 2022. Daeth â rhanddeiliaid amrywiol o bob rhan o'r diwydiant ynghyd, ac roedd yn gyfle i gynrychiolwyr ddysgu am y diweddaraf o'r sector. Cymerodd Karen Jones ac Andy Billcliff, Cyfarwyddwyr Morlais, ran yn un o'r sesiynau panel yn y gynhadledd.

Gyda'r cyhoeddiad am gyllid a chontractwr yn y gynhadledd - Morlais oedd y prif destun siarad yn ystod y diwrnod cyntaf. Bu Karen Jones a Gerallt Llewelyn Jones, ill dau'r gyfarwyddwyr y prosiect, yn brysur iawn drwy gydol y dydd gyda chyfweliadau gyda'r cyfryngau - ewch i dudalen [Facebook](#) Menter Môn i weld peth o'r deunydd.

Grŵp Cyswllt Cymunedol

Gyda chyllid bellach yn ei le a chyfnod cynnar y gwaith adeiladu ar y gweill, byddwn yn cynnal cyfarfod cyntaf y Grŵp Cyswllt Cymunedol ddechrau fis Mai. Diben y grŵp yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i grwpiau cymunedol a busnes yn ogystal â chynrychiolwyr rhanddeiliaid lleol am gynnydd Morlais. Mae aelodau'r grŵp eisoes wedi cael eu gwahodd i'r cyfarfod cyntaf - bydd cofnodion yn cael eu rhannu ar wefan Morlais mor fuan â phosibl ar ôl y cyfarfod.